Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Eglwysbach
Eglwysbach
Bae Colwyn
Conwy
LL28 5UD

11/02/2025

Annwyl Nia Daly

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Eglwysbach yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau argymhelliad o'u harolygiad craidd ym mis Tachwedd 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion, gan gynnwys gwrando arnynt yn darllen
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion, gan gynnwys ar y cyd â'r pennaeth
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion yr argymhellion, ac maent yn cydnabod bod ychydig o agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau medrau darllen disgyblion**

- Mae arweinwyr wedi sefydlu dull bwriadus o ddatblygu medrau darllen ar draws yr ysgol, gyda disgwyliadau clir wedi eu gosod i'r holl staff. O ganlyniad, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, yn enwedig yn y Gymraeg.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau darllen yn bwrpasol ac yn trafod cynnwys amrywiaeth o destunau yn synhwyrol. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus.

- Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o fedrau darllen cychwynnol y disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus er mwyn addasu eu cynlluniau'n briodol, ac i gefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn amserol.

- Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda Phrifysgol Bangor i wella rhuglder darllen y disgyblion hynaf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu darllen ac ar gynnydd ym medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion.

- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithgareddau hunanwerthuso yn llwyddiannus i sicrhau cysondeb yn yr addysgu ar draws bob dosbarth. Er enghraifft, maent yn olrhain cynnydd darllen disgyblion yn ofalus. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i gynnig ymyraethau darllen pwrpasol yn amserol.

**Ehangu'r cyfleoedd i ddatblygu profiadau addysg gorfforol y disgyblion**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol gyda hyder cynyddol. Maent yn arddangos brwdfrydedd cynhenid at ystod dda o weithgareddau corfforol wythnosol, gan groesawu profiadau a heriau newydd.

- Ers yr arolygiad craidd, mae staff yn cynllunio cyfleoedd cyson a chreadigol i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau gymnasteg a dawns yn llwyddiannus.

- Mae'r ardaloedd chwarae eang, ynghyd â defnydd creadigol o adnoddau buarth cyffrous, yn galluogi staff i drefnu a darparu ystod o brofiadau ysgogol a diddorol i ddisgyblion yn yr awyr agored.

- Rhoddir pwyslais amlwg ar ddarparu cyfleoedd effeithiol i hybu ffitrwydd corfforol disgyblion, ac i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth sy'n effeithio ar eu hiechyd. Mae'r disgyblion hynaf wedi datblygu clipiau hyfforddi digidol defnyddiol sy'n modelu gweithgareddau corfforol addas sy'n hygyrch i bawb, er enghraifft.

- Mae disgyblion yn ymrwymo'n frwdfrydig i ystod briodol o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n hybu ffitrwydd. Yn ogystal, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynychu teithiau preswyl ac ymweliadau antur cyson sy'n

cyfrannu'n bwrpasol at feithrin eu medrau corfforol a'u gwydnwch wrth wynebu her.

- Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn eiddgar mewn cystadlaethau pêl-droed, criced a nofio. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflwyniadau chwaraeon, sydd yn atgyfnerthu medrau pwysig fel cyd-chwarae, dyfalbarhad a pharch at reolau yn bwrpasol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6623040

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol